



Canfyddiadau Ffermwyr am Droseddau Fferm a Gwledig yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Dr Wyn Morris a Dr Gareth Norris
Prifysgol Aberystwyth



Ffeithiau allweddol:

63

Cyfanswm yr ymatebion

Nifer y ffermwyr a thrigolion cefn gwlad o Ddyfed-Powys a gymerodd ran yn yr arolwg

5/10

Sgôr Effeithiolrwydd yr Heddlu

Sgôr gyfartalog allan o 10 ar gyfer effeithiolrwydd yr heddlu

100%

Buddsoddiad mewn Diogelwch

Teledu cylch cyfyng, cloeon, a larymau wedi'u mabwysiadu'n eang

Datgelodd yr arolwg fod y troseddau mwyaf cyffredin a brofwyd gan ffermwyr yn cynnwys dwyn peiriannau ac offer, aflonyddu ar dda byw, ymgais i ddwyn, dwyn cyffredinol, a fandaliaeth. Mae mesurau ataliol fel teledu cylch cyfyng, cloeon, a larymau wedi cael eu mabwysiadu'n eang gan y gymuned ffermio; fodd bynnag, y sgôr gyfartalog a roddwyd i effeithiolrwydd yr heddlu oedd 5/10. Mae argymhellion yn cynnwys cynyddu adnoddau a phatrolau plismona gwledig, gwella ymgysylltiad â'r gymuned ac amlygrwydd, darparu grantiau ar gyfer technoleg diogelwch, gwella cyfathrebu a chamau dilynol, a defnyddio plismona wedi'i yrru gan ddata ar gyfer targedu manau problemus.

Cyd-destun yr Ymchwil ac Adolygiad o'r Llenyddiaeth

Mae troseddau gwledig yng Nghymru wedi bod yn destun sylw academaidd cynyddol. Mae ymchwil gan Morris a chydweithwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi dogfennu natur unigryw troseddau fferm a chefn gwlad yn Nyfed Powys a ledled Cymru yn ehangach: <https://tinyurl.com/ejb3dwz3>



Mae Norris a Morris (2024) yn archwilio troseddu a diogelwch yng nghefn gwlad Cymru yng nghyd-destun ehangach heriau plismona gwledig, gan dynnu sylw at y ffactorau daearyddol a chymdeithasol unigryw sy'n siapiau patrymau troseddu ac ymatebion yr heddlu mewn ardaloedd gwledig: <https://tinyurl.com/3un63dkz>



Mae'r ail adroddiad ar droseddau gwledig a fferm yn Nyfed Powys yn darparu data hydredol sy'n rhoi'r canfyddiadau cyfredol yn eu cyd-destun: <https://tinyurl.com/3b9mv4y6>



Mae ymchwil ryngwladol gan Harkness (2020) ar droseddau fferm yn Awstralia yn cynnig mewnwelediadau cymharol i natur fyd-eang heriau troseddau gwledig, gan nodi patrymau tebyg o danriportio a phryder cymunedol: <https://tinyurl.com/4ft944z3>



Mathau o droseddau a riportiwyd

Nododd yr arolwg mai dwyn peiriannau ac offer yw'r math o drosedd a riportiwyd amlaf ymhlith ymatebwyr.

Dilynwyd hyn gan droseddau sy'n gysylltiedig â da byw, gan gynnwys aflonyddu ar dda byw gan gŵn, sy'n peri pryder sylweddol i ffermwyr.

Mynegodd ymatebwyr yr arolwg farn gymysg ynghylch ymateb yr heddlu i ddigwyddiadau troseddau gwledig. Er bod rhai ffermwyr yn canmol y tîm troseddau gwledig ymroddedig am eu gwybodaeth a'u hymrwymiad arbenigol, nododd eraill bryderon am amseroedd ymateb araf ac adnoddau cyfyngedig.

Mae heriau daearyddol plismona ardaloedd gwledig, ynghyd â gofynion cystadleuol ar adnoddau'r heddlu, yn creu anawsterau gweithredol sylweddol wrth ymateb i droseddau fferm.

Adroddwyd hefyd yn aml am ymgais i ddwyn, dwyn cyffredinol, a fandaliaeth, gan adlewyrchu'r ystod amrywiol o weithgareddau troseddol sy'n effeithio ar gymunedau gwledig. Mae ymchwil gan Norris a Morris yn tynnu sylw at yr heriau strwythurol sy'n wynebu plismona gwledig yng Nghymru, gan gynnwys ardaloedd daearyddol helaeth, poblogaethau gwasgaredig, a'r angen am wybodaeth arbenigol am arferion amaethyddol a chymunedau gwledig. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil ehangach ar batrymau troseddau gwledig yng Nghymru (<https://tinyurl.com/bdzusak3>)

Dwyn Peiriannau ac Offer

Y prif bryder

Daeth dwyn peiriannau ac offer i'r amlwg fel y math o drosedd mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar ffermwyr yn ardal Dyfed-Powys. Mae gwerth uchel peiriannau amaethyddol, ynghyd â'i lleoliadau storio anghysbell yn aml, yn eu gwneud yn darged deniadol i grwpiau troseddol trefnedig.

Dywedodd ffermwyr fod dwyn tractorau, beiciau cwad, offer, a chyfarpar hanfodol arall nid yn unig yn cynrychioli colled ariannol sylweddol ond hefyd yn tarfu ar weithrediadau ffermio, yn enwedig yn ystod cyfnodau hollbwysig el y tymor cynaeafu neu wyna.

Mae natur gludadwy llawer o offer fferm ac anhawster diogelu eiddo gwledig mawr yn gwneud yr asedau hyn yn fwy tebygol o gael eu dwyn.



Aflonyddu ar Dda Byw a Throseddau Cysylltiedig

Nodwyd bod aflonyddu ar dda byw, a achosir yn bennaf gan gŵn yn ymosod ar anifeiliaid fferm neu'n eu cwrso, yn bryder mawr ymhlith yr ymatebwyr. Mae gan y math hwn o drosedd oblygiadau lles sylweddol i anifeiliaid a gall arwain at golledion ariannol sylweddol trwy anafiadau, marwolaeth, neu gymhlethdodau a achosir gan straen fel comesgor mewn mamogiaid beichiog.

Niwed Corfforol Uniongyrchol

Cŵn yn ymosod ar ddefaid, gwartheg neu dda byw eraill, gan achosi anafiadau neu farwolaeth

Effeithiau sy'n gysylltiedig â straen

Digwyddiadau cwrso yn arwain at gamesgor, llai o gynhyrchiant, neu newidiadau ymddygiadol hirdymor

Canlyniadau Ariannol

Costau milfeddygol, colli stoc bridio, a gostyngiad yng ngwerth anifeiliaid yr effeithir arnynt ar y farchnad

Mae ymchwil wedi dangos bod aflonyddu ar dda byw yn aml yn cael ei danriportio, gyda llawer o ffermwyr yn ei ystyried fel agwedd anochel ar fywyd gwledig yn hytrach na mater troseddol sy'n gofyn am ymyrraeth yr heddlu.

Ymgais i Ddwyn, Dwyn Cyffredinol, a Fandaliaeth

Y tu hwnt i'r prif fathau o droseddau, adroddodd ffermwyr eu bod wedi profi ymgais i ddwyn, dwyn cyffredinol gwahanol eitemau, a fandaliaeth i eiddo ac offer. Mae'r troseddau hyn, er eu bod weithiau'n cynnwys gwerthoedd cyffredinol is, yn cyfrannu'n sylweddol at faich cyffredinol troseddau gwledig:

- Mae digwyddiadau ymgais i ddwyn yn dangos rhagchwilio a chynllunio troseddol, yn aml cyn troseddau mwy difrifol;
- Mae dwyn cyffredinol yn cwmpasu ystod eang o eitemau gan gynnwys tanwydd, offer, deunyddiau adeiladu, a da byw;
- Mae fandaliaeth i gatiâu, ffensys, adeiladau ac offer yn creu costau atgyweirio ac aflonyddwch gweithredol;
- Mae tipio anghyfreithlon ar dir fferm yn cynrychioli trosedd amgylcheddol a baich ariannol i'w gwaredu.

Ni ddylid tanamcangyfrif effaith gronnol y troseddau "lefel is" hyn, gan eu bod hefyd yn cyfrannu at ymdeimlad o fregusrwydd ffermwyr a chost gyffredinol busnesau gwledig.

Sgôr Effeithiolrwydd yr Heddlu

5/10

Sgôr gyfartalog effeithiolrwydd yr heddlu gan ymatebwyr yr arolwg

Mae sgôr gyfartalog effeithiolrwydd yr heddlu o 5 allan o'r uchafswm o 10 yn adlewyrchu anfodlonrwydd sylweddol ymhlith y gymuned ffermio ynghylch perfformiad yr heddlu wrth fynd i'r afael â throseddau gwledig. Mae'r sgôr ganolig hon yn awgrymu, er bod rhai profiadau cadarnhaol yn bodoli, mae angen gwelliant sylweddol.

Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at y sgôr hon yn cynnwys amseroedd ymateb araf canfyddedig, diffyg gweithredu dilynol ar ddigwyddiadau a riportiwyd, amlygrwydd cyfyngedig yr heddlu mewn ardaloedd gwledig, ac ymdeimlad nad yw troseddau fferm yn cael eu blaenoriaethu o'i gymharu â throseddau trefol.

Fodd bynnag, roedd ymatebwyr a oedd wedi rhyngweithio â'r tîm troseddau gwledig arbenigol yn aml yn darparu adborth mwy cadarnhaol, sy'n awgrymu y gall adnoddau plismona gwledig pwrpasol wella boddhad a chanlyniadau ffermwyr.

Buddsoddiadau Diogelwch Ychwanegol

Y tu hwnt i brif fesurau diogelwch teledu cylch cyfyng, cloeon, a larymau, mae ffermwyr wedi gweithredu ystod o strategaethau ataliol ychwanegol i amddiffyn eu heiddo a'u da byw. **Mae'r mesurau hyn yn adlewyrchu sut mae ffermwyr wedi mynd ati'n arloesol a rhagweithiol i ymateb i fygythiadau troseddu parhaus.**

Gwelliannau Diogelwch Ffisegol

- Gosod goleuadau diogelwch gyda synwryddion symudiad
- Atgyfnerthu gatiau a ffensys
- Creu clos diogel ar gyfer offer gwerthfawr
- Defnyddio angorau daear a dyfeisiau llonyddu
- Tirlunio strategol i wella gwyliadwriaeth naturiol

Technoleg ac Orlhain

- Dyfeisiau olrhain GPS ar beiriannau a cherbydau
- Cynlluniau marcio a chofrestru eiddo
- Systemau adnabod ac olrhain da byw
- Systemau rhybuddio cymunedol a grwpiau cyfryngau cymdeithasol
- Monitro o bell trwy gymwysiadau ffôn clyfar

Effaith Troseddau Gwledig ar Gymunedau Ffermio

Mae effaith troseddau gwledig yn ymestyn ymhell y tu hwnt i gostau ariannol uniongyrchol eiddo wedi'i ddwyn neu ei ddifrodi. Dywedodd ymatebwyr yr arolwg eu bod yn teimlo mwy o bryder a straen, ac yn teimlo'n llai diogel yn eu cartrefi eu hunain ac ar eu tir.

Effaith Seicolegol

Mwy o bryder, straen ac ofn, yn enwedig i ffermwyr sy'n byw mewn lleoliadau ynysig. Mae tresmasu ar ofod personol a busnes yn creu effeithiau emosiynol parhaol.

Baich Ariannol

Mae costau uniongyrchol dwyn a difrod, ynghyd â chynnydd mewn premiymau yswiriant a buddsoddiad sylweddol mewn mesurau diogelwch, yn rhoi straen sylweddol ar fusnesau fferm.

Tarfu ar Weithredoedd

Gall dwyn offer hanfodol yn ystod cyfnodau hollbwysig yn y calendr ffermio achosi problemau gweithredol difrifol, methu terfynau amser, a llai o gynhyrchiant.

Mae ymchwil gan Morris a chydweithwyr yn dogfennu effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach troseddau gwledig ar gymunedau ffermio Cymru, gan gynnwys effeithiau ar iechyd meddwl a chydlyniant cymunedol: <https://tinyurl.com/4ppw4tph>

Costau Cudd Troseddau Gwledig

Er bod costau ariannol uniongyrchol troseddau gwledig yn sylweddol, mae'r costau cudd yn aml yn cael eu hanwybyddu mewn ystadegau swyddogol a thrafodaethau polisi. Gall yr effeithiau anuniongyrchol hyn fod yn llawn mor niweidiol i fusnesau ffermio a chymunedau gwledig.

Mae baich cronol troseddau gwledig yn cynnwys nid yn unig eiddo wedi'i ddwyn ond hefyd yr amser, yr arian a'r egni emosiynol a fuddsoddir mewn atal, adfer a gwyliadwriaeth barhaus.

- Costau amser:** Oriau a dreulir ar fesurau diogelwch, riportio troseddau, delio ag yswiriant, a mynd i achosion llys
- Costau cyfle:** Adnoddau a ddargyfeiriwyd o weithgareddau ffermio cynhyrchiol i atal ac ymateb i droseddu
- Effeithiau ar yswiriant:** Cynnydd mewn premiymau, gordaliadau uwch, ac anhawster cael yswiriant ar gyfer rhai eitemau
- Effeithiau cymunedol:** Erydiad ymddiriedaeth, llai o gyfalaf cymdeithasol, a chynnydd mewn ynysu
- Effeithiau iechyd:** Salwch sy'n gysylltiedig â straen, tarfu ar gwsg, a heriau iechyd meddwl

Argymhelliad 1: Cynyddu Adnoddau Plismona Gwledig

Presenoldeb a Phatrolau Gwell

Yr argymhelliad allweddol cyntaf yw cynyddu adnoddau a phatrolau plismona gwledig yn ardal Dyfed Powys. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r tîm troseddau gwledig, cynyddu amlder patrolau mewn ardaloedd amaethyddol, a sicrhau sylw digonol yn ystod cyfnodau risg uchel.

Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod presenoldeb heddlu amlwg mewn ardaloedd gwledig yn gweithredu fel ataliad i ddarpar droseddwyr ac yn rhoi sicrwydd i gymunedau ffermio. Mae patrolau rheolaidd hefyd yn galluogi swyddogion i ddatblygu gwybodaeth leol a pherthnasoedd â ffermwyr, gan wella gwaith casglu gwybodaeth ac effeithiolrwydd ymateb.

Mae swyddogion troseddau gwledig ymroddedig gyda gwybodaeth arbenigol am arferion, offer, a da byw amaethyddol yn hanfodol ar gyfer ymchwilio i droseddau fferm a'u hatal yn effeithiol.

Argymhelliad 2: Ymgysylltu â'r Gymuned ac Amlygrwydd

Mae gwella ymgysylltiad â'r gymuned a gwelededd yr heddlu yn argymhelliad hanfodol ar gyfer atal troseddau gwledig ac ymateb iddynt yn well. Mae hyn yn cynnwys meithrin perthnasoedd cryfach rhwng yr heddlu a chymunedau ffermio trwy gyfathrebu rheolaidd, presenoldeb mewn digwyddiadau amaethyddol, ac allgymorth rhagweithiol.

01

Cyfarfodydd Rheolaidd â'r Gymuned

Sefydlu fforymau rheolaidd i ffermwyr gwrdd â'r heddlu, rhannu pryderon, a derbyn cyngor atal troseddau

03

Cynlluniau Gwarchod Ffermydd

Cefnogi ac ehangu Farm Watch a chynlluniau rhybuddio cymunedau gwledig i hwyluso rhannu gwybodaeth

02

Presenoldeb mewn Digwyddiadau Amaethyddol

Sicrhau presenoldeb yr heddlu mewn sioeau amaethyddol, marchnadoedd, a digwyddiadau ffermio i adeiladu perthnasoedd a chasglu gwybodaeth

04

Ymgysylltu â'r Cyfryngau Cymdeithasol

Defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â chymunedau gwledig, rhannu cyngor atal troseddu, a darparu diweddariadau

Mae ail adroddiad Dyfed-Powys ar droseddau gwledig a ffermydd yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith partneriaeth rhwng yr heddlu, ffermwyr a chymunedau gwledig:

<https://tinyurl.com/5s2byvjc>

Argymhelliad 3: Grantiau Technoleg Diogelwch

Mae darparu grantiau ar gyfer technoleg diogelwch yn argymhelliad pwysig i gefnogi ffermwyr i ddiogelu eu heiddo a'u da byw. O ystyried baich ariannol sylweddol buddsoddiadau diogelwch a nodwyd yn yr arolwg, gallai cynlluniau grant wedi'u targedu helpu ffermydd llai a'r rhai mwyaf agored i droseddau.

Elfennau'r Cynllun Grant

- Cyllid ar gyfer systemau teledu cylch cyfyng ac offer monitro
- Cefnogaeth ar gyfer dyfeisiau olrhain GPS ar beiriannau
- Cymorthdaliadau ar gyfer mesurau diogelwch ffisegol uwch
- Cymorth gyda marcio a chofrestru eiddo
- Buddsoddi mewn systemau rhybuddio cymunedol

Ystyriaethau wrth ei roi ar waith

- Blaenoriaethu ffermydd mewn ardaloedd troseddu uchel neu fannau problemus
- Targeddu cymorth i fusnesau llai gydag adnoddau cyfyngedig
- Gofyn am asesiadau diogelwch sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Cysylltu cyllid â phartneriaethau atal troseddu
- Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd buddsoddiadau

Gallai cynlluniau o'r fath gael eu hariannu drwy bartneriaethau rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau amaethyddol, gan ddefnyddio ffrydiau cyllid datblygu gwledig o bosibl.

Argymhelliad 4: Gwell Cyfathrebu a Gweithredu Dilynol

Mae gwella gweithdrefnau cyfathrebu a gweithredu dilynol yn argymhelliad hanfodol ar gyfer gwella boddhad ffermwyr gydag ymateb yr heddlu. Cyfeiriodd ymatebwyr yr arolwg yn aml at ddiffyg adborth ar ddigwyddiadau a riportiwyd fel ffynhonnell rhwystredigaeth a datgysylltiad.



Ymateb Cychwynnol

Cydnabyddiaeth brydlon yn dilyn riportio troseddau gyda rhifau cyfeirnod a manylion cyswllt clir



Diweddariadau ar yr Ymchwiliad

Cyfathrebu rheolaidd ar gynnydd ymchwiliad, hyd yn oed pan nad oes unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn digwydd



Hysbysu am Ganlyniadau

Esboniad clir o ganlyniadau'r ymchwiliad, rhesymau dros benderfyniadau, ac unrhyw gamau pellach sydd ar gael



Cymorth i Ddiodefwr

Darparu cyngor atal troseddu a chyfeirio at wasanaethau cymorth lle bo'n briodol

Dylai protocolau cyfathrebu gwell gynnwys pwyntiau cyswllt pwrpasol ar gyfer troseddau gwledig, amserlenni realistig ar gyfer ymateb ac ymchwilio, a sianeli hygyrch i ffermwyr ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu godi pryderon.

Goblygiadau Polisi Ehangach ac Ymchwil i'r Dyfodol

Mae gan ganfyddiadau'r arolwg hwn oblygiadau ehangach i bolisi troseddau gwledig yn Nyfed-Powys, Cymru a thu hwnt. Maent yn tynnu sylw at yr angen am sylw parhaus i broblemau troseddau gwledig, adnoddau digonol ar gyfer plismona gwledig, a chydabyddiaeth o'r heriau unigryw sy'n wynebu cymunedau ffermio.

Blaenoriaethau Datblygu Polisi

- Integreiddio troseddau gwledig i strategaethau plismona prif ffrwd
- Cydnabod troseddau gwledig ym mlaenoriaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Cyllid digonol ar gyfer timau troseddau gwledig arbenigol
- Dulliau partneriaeth sy'n cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, a sefydliadau amaethyddol
- Mesurau deddfwriaethol i fynd i'r afael â heriau troseddau gwledig penodol

Anghenion Ymchwil yn y Dyfodol

- Astudiaethau hydredol sy'n olrhain tueddiadau troseddau gwledig dros amser
- Gwerthuso ymyriadau atal troseddu a'u heffeithiolrwydd
- Ymchwil ar brofiadau dioddefwyr troseddau gwledig
- Astudiaethau cymharol ar draws gwahanol ardaloedd heddlu gwledig
- Ymchwilio i gyfranogiad troseddau trefnedig mewn troseddau gwledig

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi archwilio canfyddiadau ffermwyr ynghylch troseddau fferm a chefn gwlad yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, gan dynnu ar ddata arolwg gan 63 o ymatebwyr, a rhoi canfyddiadau yn y llenyddiaeth academiaidd ehangach yn eu cyd-destun. Mae'r dystiolaeth yn datgelu pryderon sylweddol am ddwyn peiriannau, aflonyddu ar dda byw, a mathau eraill o droseddau, ochr yn ochr â boddhad canolig ag effeithiolrwydd yr heddlu (sgôr o 5/10).

Mae ffermwyr wedi ymateb i fygythiadau troseddu trwy fuddsoddi'n sylweddol mewn mesurau ataliol gan gynnwys teledu cylch cyfyng, cloeon a larymau, sy'n golygu baich ariannol sylweddol i fusnesau ffermio. Mae effaith troseddau gwledig yn ymestyn y tu hwnt i gostau ariannol uniongyrchol i gynnwys effeithiau seicolegol, aflonyddwch gweithredol, ac effeithiau ehangach ar y gymuned.

Mae'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn – cynyddu adnoddau a phatrolau plismona gwledig, gwella ymgysylltiad â'r gymuned a chynyddu amlygrwydd, darparu grantiau ar gyfer technoleg diogelwch, a gwella cyfathrebu a gweithredu dilynol – yn cynnig fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwella atal troseddau gwledig ac ymateb iddynt.

Mae gweithredu'r argymhellion hyn yn gofyn am ymrwymiad parhaus gan Heddlu Dyfed-Powys, asiantaethau partner, a llunwyr polisi, ochr yn ochr ag ymchwil a gwerthuso parhaus i sicrhau dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn sy'n effeithio ar gymunedau ffermio Cymru.

Ynglŷn â'r Prosiect

Wedi'i ariannu gan Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI), mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn un o bedair Partneriaeth Arloesi Polisi Lleol a sefydlwyd ledled y DU i gysylltu ymchwilwyr â llunwyr polisi a chymunedau lleol i fynd i'r afael â heriau rhanbarthol a sbarduno twf cynaliadwy a chynhwysol. Mae'n cysylltu ymchwilwyr academiaidd, cyrff cyhoeddus, sefydliadau a chymunedau'r trydydd sector a'r sector preifat, gyda'r nod o wella'r defnydd o ymchwil ac arloesi i gefnogi llunio polisiau effeithiol, datblygiad rhanbarthol cynaliadwy, a llesiant pobl a lleoedd ledled cefn gwlad Cymru.

Dr Wyn Morris

- E-bost: dmm@aber.ac.uk
- Swyddfa: C54, Adeilad Hugh Owen
- Ffôn: +44 (0) 1970 622513
- Twitter: [wyn_wm](https://twitter.com/wyn_wm)



Mae Dr Wyn Morris yn uwch ddarlithydd yn Ysgol Fusnes Aberystwyth. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth yn 2001 gyda BSc mewn Rheoli Adnoddau Gwledig, gan arbenigo mewn busnes ac economeg. Aeth ei yrfa ag ef i'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw lle bu'n gweithio fel Cydlynnydd Ardystio ac Asesu tra'n astudio ar gyfer MSc Econ mewn Entrepreneuriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymunodd Wyn â staff Prifysgol Aberystwyth fel Swyddog Ymchwilio gyda'r Arolwg Busnes Fferm yn 2003, cyn ymgymryd â swydd yn yr Ysgol Busnes a Rheolaeth yn 2010. Ei brif feysydd ymchwil ac addysgu yw rheolaeth, strategaeth a gweithrediadau gyda ffocws ar entrepreneuriaeth wledig.

Dr Gareth Norris

- E-bost: ggn@aber.ac.uk
- Swyddfa: 1.33, Adeilad Penbryn 5
- Ffôn: +44 (0) 1970 621666
- Twitter: [Garethnorris1](https://twitter.com/Garethnorris1)



Mae Dr Gareth Norris yn uwch ddarlithydd yn yr Adran Seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth lle bu'n gyflogedig ers 2006. Mae ei brif feysydd ymchwil ac addysgu yn canolbwyntio ar seicoleg fforensig a throseddol, yn enwedig barn a gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cyfreithiol. Ochr yn ochr â'i waith ym maes troseddau gwledig, mae wedi cynnal gwerthusiadau ar gyfer y Swyddfa Gartref ar Droseddau Difrifol a Threfnedig a gyda Chyfiawnder leuencid yn datblygu offer asesu risg.